

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
A GYNHALIWDYD AM 9.30AM AR 13 EBRILL 2021 YN NHŶ HASTINGS A THRWY
TEAMS**

Yn bresennol: Mrs Debra Evans-Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi ac Ymarfer); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Miss Hannah Toor (Swyddog Cymorth Busnes); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes); Mr Math Williams (Swyddog Cymorth Tîm); Miss Carys Vaughan (Swyddog Cymorth Tîm).

Amser dechrau: 09:32

Amser gorffen: 13:00

Ymddiheuriadau: Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2021

2.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2021 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân newidiadau.

3. Arolwg Etholiadol Sir Fynwy – Adroddiad Terfynol

3.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 1 Ebrill 2021 gan y Rheolwr Polisi ac Ymarfer.

3.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad ac enwau'r wardiau etholiadol.

3.3. **Cytunwyd** ar yr adroddiad, yn amodol ar rai mân newidiadau a wneir gan y Rheolwr Polisi ac Ymarfer cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

Cyfanswm Cyffredinol yr Aelodau – 46

- 3.4. **Nodwyd** y byddai darllen yr adroddiad rhwng cymheiriaid yn digwydd ar ôl y cyfarfod heddiw, ac y caiff yr Adroddiad Terfynol ei gyhoeddi ym mis Mehefin, ynghyd â'r Asesiadau o'r Effaith.
- 3.5. **Gweithredu** – Bydd y Rheolwr Polisi ac Ymarfer yn gwneud mân newidiadau i'r Adroddiad Terfynol.
- 3.6. **Gweithredu** – Bydd y Rheolwr Polisi ac Ymarfer yn ychwanegu adran ar yr enwau Cymraeg at friff y Prif Weithredwr.

4. Cynllun Gweithredol 2021/22

- 4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 6 Ebrill 2021 gan y Prif Weithredwr.
- 4.2. **Cytunwyd** cyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru (LIC), yn amodol ar rai mân newidiadau.
- 4.3. **Gweithredu** – Bydd y Prif Weithredwr yn gwneud y newidiadau cytûn cyn cyflwyno'r adroddiad i LIC.

5. Y Ddraig Werdd – Adroddiad Archwilio 2019/20

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 31 Mawrth 2021 gan Hannah Toor.
- 5.2. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi llwyddo i gadw ei Safon Amgylcheddol Lefel 2 y Ddraig Werdd ar ôl cwblhau Archwiliad y Ddraig Werdd 2019/20 ym mis Chwefror, a llongyfarchwyd y staff ar eu cyflawniad.
- 5.3. **Nodwyd** y gwelliannau a awgrymwyd yn yr adroddiad archwilio, a **chytunwyd** y dylid rhoi'r rhain ar waith.
- 5.4. Ystyriwyd y Datganiad Polisi Datblygu Cynaliadwy a'i **gytuno** heb unrhyw newidiadau.
- 5.5. **Gweithredu** – Bydd yr HB yn gofyn i Groundworks Wales wneud newidiadau i'r ddau enw yn yr adroddiad archwilio.
- 5.6. **Gweithredu** – Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn rhoi cyhoedduswydd i'r cyflawniad ar Twitter.

- 5.7. **Gweithredu** – Bydd Tîm yr Amgylchedd yn rhoi'r tri gwelliant a awgrymwyd yn yr adroddiad archwilio ar waith.

6. Unrhyw Fater Perthnasol Arall

- 6.1. Trafodwyd rhestr blaenoriaethau'r arolygon a ddarparwyd gan LIC, a chytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu'n ffurfiol at Lisa James (Llywodraeth Cymru) ynghylch y mater hwn. Bydd y Prif Weithredwr hefyd yn trefnu cyfarfod rhwng y Cadeirydd a Tracy Burke (Llywodraeth Cymru) i drafod y cynnydd mewn perthynas â'r Gorchmynion.
- 6.2. Crybwyllodd y Prif Weithredwr y cafwyd gohebiaeth ffurfiol gan yr Is-adran Noddi yn ymwneud ag Arolwg Etholiadol Castell-nedd Port Talbot. Bydd ateb ffurfiol yn cael ei ddarparu erbyn 21 Ebrill 2021.
- 6.3. Mewn sesiwn dal i fyny ddiweddar â'r Is-adran Noddi, rhoddwyd wybod i'r Prif Weithredwr fod LIC wedi cael gohebiaeth yn ymwneud â'r cynigion sy'n effeithio ar Benalun (Sir Benfro) ac Ynys-ddu (Caerffili). Bydd LIC yn ymateb yn uniongyrchol i'r ohebiaeth ac nid oes angen gwybodaeth ychwanegol arni gan y Comisiwn.
- 6.4. Ystyriwyd ymateb drafft i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Chaerdydd, Caerffili a Sir y Fflint, a chytunwyd ar newidiadau.
- 6.5. Crybwyllodd y Prif Weithredwr y dosbarthwyd arweiniad y LIC ar y cyfnod galaru i'r staff yn dilyn marwolaeth Ei Fawrhydi Dug Caeredin.
- 6.6. **Gweithredu** – Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lisa James (Llywodraeth Cymru) ynghylch blaenoriaethau'r arolygon.
- 6.7. **Gweithredu** – Bydd y Prif Weithredwr yn trefnu cyfarfod rhwng y Cadeirydd a Tracy Burke (Llywodraeth Cymru).
- 6.8. **Gweithredu** – Bydd y Prif Weithredwr yn drafftio ymateb ffurfiol i'r Is-adran Noddi mewn perthynas ag Arolwg Etholiadol Castell-nedd Port Talbot.
- 6.9. **Gweithredu** – Bydd y Prif Weithredwr yn gwneud newidiadau i'r llythyr drafft i'r Gweinidog ac yn trefnu i'w gyflwyno.

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 25 Mai 2021